***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 10

# YMCHWILIAD Y COMISIYNYDD I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Å SAFONAU ETC

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

*Cylch gorchwyl*

2 (1) Cyn cynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd baratoi cylch gorchwyl yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r cylch gorchwyl bennu—

(a) y person yr ymchwilir iddo ("D"),

(b) y methiant a amheuir i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(3) Cyn setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi hysbysiad am y cylch gorchwyl arfaethedig—

(i) i D, a

(ii) i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant,

(b) rhoi cyfle i bob person y rhoddir hysbysiad iddo ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig i wneud sylwadau ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig, ac

(c) ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

(4) Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (3)), rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymchwiliad mewn modd sy'n debygol, yn nhyb y Comisiynydd, o ddwyn yr ymchwiliad i sylw personau y mae a wnelo'r ymchwiliad â hwy neu bersonau sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a

(b) hysbysu'r canlynol am y cylch gorchwyl—

(i) D, a

(ii) unrhyw berson arall a chanddo fuddiant.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw newid yn y cylch gorchwyl fel y byddai'r paragraff yn gymwys pe byddai'r newid yn y cylch gorchwyl yn gyfystyr â pharatoi'r cylch gorchwyl hwnnw.